


Gweithdy Mandala



Manyllder Mandala gan Tina Grant

Beth yw mandala?

Mandala yw'r gair Sansgrit am gylch. Patrwm o symbolau sydd wedi'u trefnu mewn cylchoedd cydganol yw mandala. Yn hanesyddol, fe'u defnyddiwyd fel tywyswyr ysbrydol, mapiau meddwl, cynrychiolwyr o'r cosmos, y nefoedd neu Dduw ac fel ffordd o fyfrio.

Mae creu mandala'n brofiad hamddenol, mae pob un yn unigryw ac ni allwch wneud camgymeriad.

Yn y gweithdy hwn, byddwn yn defnyddio technegau arlunio awtomatig i ddatgelu symbolau'r isymwybod i'w defnyddio fel man cychwyn ar gyfer ein mandalas ein hunain.



Beth fydd ei angen arnoch?

- Papur
- Inc/paent du
- Brws neu feiro neu offeryn arlunio cartref
- Pencil
- Cwmpawd (dewisol)
- Pren mesur
- Beiro ysgrifennu maen du

Cam 1

Yn gyntaf, byddwn yn creu marciau. Gallwch ddefnyddio brws, inc neu baent, neu hyd yn oed gwneud eich offeryn eich hun allan o frigyn miniog neu drwy glymu deunyddiau gwahanol i ddiwedd y brigyn.

Gwnewch gyfres o farciau ar bapur wrth adael i'ch meddyliau grwydro. Gall y marciau fod yn unrhyw beth, ond ceisiwch arbrofi â ffyrdd gwahanol o farcio wrth feddwl am bethau gwahanol hefyd.




Cam 2

Edrychwch ar eich paentiadau gan nodi rhai o'r symbolau ynddynt yr hoffech eu defnyddio yn eich mandala.




Cam 3

Nawr, gallwn greu strwythur eich mandala. Tynnwch lun o gylchoedd cydganol ar ddarn o bapur sgwâr. Gallwch gael cynifer o gylchoedd ag yr hoffech a gallant fod yn feintiau gwahanol. Nawr, rhannwch eich cylchoedd yn ddarnau hafal. Bydd hwn yn eich helpu i gadw'r patrymau'n gyson.




Cam 4

Dechreuwch yn y canol a llenwch bob cylch â phatrwm o'ch dewis. Gallwch ddefnyddio rhai o'r symbolau a grëwyd gennych yn gynharach, ac ychwanegu rhagor wrth i chi fynd yn eich blaen a hyd yn oed ychwanegu dyluniadau ffigurol. Mae unrhyw beth yn iawn ar yr amod eich bod yn llenwi'r cylch â'r patrwm, a gall eich mandala barhau nes eich bod yn llenwi'r papur!



Manylion mandala gan Tina Grant

A dyna ni! Cipolwg unigryw ar eich isymwybod!



Mandala gan Tina Grant

Awgrymiadau

- Cofiwch fod y berthynas rhwng y marciau du a'r papur yn newid ym mhob cylch. Weithiau bydd y cefndir yn ddu ac weithiau bydd yn wyn.
- Beth am roi cynnig ar un lliw gwahanol? Sut mae hynny'n newid y deinameg?
- Nid oes rhaid arlunio mandala. Allwch chi ail-greu eich dyluniad drwy ddefnyddio deunydd arall? Mosäig? Pwytho? Gludwaith?
- Allech chi greu mandala â themâu gwahanol? Stori eich bywyd? Natur? Y môr?

Ar ôl i chi orffen llwythwch i fyny delwedd o'ch gwaith i'w cynnwys ar
[@glynnvivianlearning](https://www.instagram.com/glynnvivianlearning) a [#glynnviviandysgu](https://www.instagram.com/glynnviviandysgu)



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



FRIENDS
OF THE
GLYNN
VIVIAN



Cyngor Abertawe
Swansea Council